Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Plascrug
# Rhodfa Plascrug
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 1HL

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 21/08/2012**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymunedol Plascrug yn nhref Aberystwyth ar arfordir Ceredigion. Daw mwyafrif helaeth o ddisgyblion yr ysgol o'r dref, er bod nifer o ddisgyblion yn teithio ymhellach. Saesneg yw prif gyfrwng yr addysgu, ac addysgir Cymraeg fel ail iaith ac fel cyfrwng ar gyfer rhai pynciau.

Mae saith deg pump y cant o boblogaeth yr ysgol o dras gwyn Prydeinig tra bod y 25% arall o ddisgyblion yn dod o ystod eang o gefndiroedd ethnig. At ei gilydd, daw disgyblion o 38 o wledydd gwahanol ac fe gaiff 14 o ddisgyblion gymorth ar gyfer siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Daw llai nag un y cant o ddisgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn famiaith. Mae tua 35% o ddisgyblion yn byw mewn ardal ddifreintiedig tra bod y gweddill o gefndiroedd amrywiol. Mae gan ryw 12% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sef ffigur sy'n is na chyfartaledd yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed. Mae 422 o ddisgyblion ar y gofrestr. Cânt eu haddysgu mewn 17 o ddosbarthiadau, yn cynnwys uned feithrin o ddau ddosbarth sy'n darparu ar gyfer plant amser llawn a rhan-amser fel ei gilydd. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 17% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol a bod gan bum disgybl ddatganiad o angen addysgol arbennig.

Y tro diwethaf i'r ysgol gael ei harolygu oedd ym Mai 2006. Ers hynny, mae cofrestr yr ysgol wedi codi rhyw 17%. Mae 20 o athrawon amser llawn, a dau athro rhan-amser yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Plascrug yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,348 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw is £8,706 a'r isafswm yw £2,987. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Plascrug yn safle 49 o'r 60 o ysgolion cynradd yng Ngheredigion o ran cyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod safonau lles disgyblion yn rhagorol;
- bod safon y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn dda iawn ac yn bodloni anghenion pob disgybl yn llawn; a
- bod y safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer iaith Gymraeg disgyblion yn rhagorol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- bod tuedd barhaus ar i fyny yn safonau'r disgyblion;
- bod yr ysgol yn cael ei harwain yn dda a bod gan staff ddisgwyliadau uchel o bob disgybl;
- bod arweinwyr yn cynnig ystod o gyfleoedd eithriadol o dda i staff wella eu medrau proffesiynol yn barhaol;
- bod yr hunanarfarnu'n gadarn a chywir iawn; a
- bod partneriaethau'n rhagorol ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu'r disgyblion.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 gynnal a gwella'r ffocws presennol ar ddatblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm;

A2 sicrhau bod yr addysgu'n gyson dda ar draws yr ysgol; a

A3 sicrhau bod y strategaethau asesu ar gyfer dysgu'n cael eu rhoi ar waith yn gyson ar draws yr ysgol.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau'r ysgol â'u medrau islaw'r hyn a ddisgwylir fel arfer. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

Nid yw perfformiad disgyblion saith oed dros y pedair blynedd diwethaf wedi cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae'r data'n dangos tuedd ar i fyny yn ystod y cyfnod hwn, ac mae'r asesiadau athrawon diweddaraf yn dangos bod cyflawniad disgyblion yn y pynciau craidd, sef Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn parhau i wella.

Mae'r data ar gyfer disgyblion 11 oed yn dangos tuedd ar i fyny dros dair blynedd. Roedd canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) neu'n uwch yn y pynciau craidd yn 2011 yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan a'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg.

Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefelau uwch na'r disgwyl yn eithriadol o uchel o gymharu ag ysgolion tebyg a chyfartaleddau Cymru gyfan.

Nid oes unrhyw batrwm arwyddocaol ym mherfformiadau bechgyn o gymharu â merched, na rhwng y disgyblion hynny sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r disgyblion nad oes ganddynt hawl.

Mae'r cynnydd a wna disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn eithriadol o dda. Mae bron pob un o'r disgyblion hyn yn cyrraedd y lefel 4 ddisgwyliedig neu'n uwch erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Yn 2011, llwyddodd pob disgybl yn y categori hwn i gyrraedd y lefel 4 ddisgwyliedig ym mhob un o'r pynciau craidd, sef Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae disgyblion y nodwyd eu bod yn fwy abl a dawnus yn gwneud cynnydd rhagorol. Yn 2011, llwyddodd 18% o'r garfan wreiddiol i symud ymlaen bedair lefel mewn o leiaf un pwnc mewn pedair blynedd.

Bron ym mhob un o'r gwersi a arsylwyd, mae cynnydd a chyflawniad disgyblion yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw i gof ddysgu blaenorol yn dda, ac maent yn caffael gwybodaeth newydd ac yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol. Er enghraifft, gallai disgyblion nodi a dosbarthu amrywiaeth o fywyd planhigion yn dda yn ystod gwers wyddoniaeth.

Mae medrau llythrennedd disgyblion wedi'u datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn huawdl iawn ac yn defnyddio geirfa gynyddol ddatblygedig yn eu gwaith llafar a'u gwaith ysgrifenedig. Mae gallu disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol ac yn estynedig ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n dda iawn. Mae disgyblion yn aml yn darllen ystod o lyfrau'n rhugl ac yn hyderus.

Mae safonau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhagorol. Er nad oedd asesiadau athrawon mewn Cymraeg y llynedd yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd yr awdurdod lleol, mae'r safonau a arsylwyd mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn dangos rhinweddau rhagorol yn glir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gyflym i siarad Cymraeg yn hyderus ac maent yn defnyddio'r Gymraeg yn dda mewn ystod o gyd-destunau. Mae darllen mewn Cymraeg yn rhagorol ar draws pob oedran, ac mae llawer o ddisgyblion yn creu enghreifftiau rhagorol o waith ysgrifenedig.

### Lles: Rhagorol

Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda iawn o ffyrdd iach o fyw a phwysigrwydd ymarfer corff a'r hyn y maent yn ei fwyta. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall effeithiau ymarfer corff ar eu cyrff a manteision hyn i'w hiechyd a'u lles. Mae disgyblion wedi cymryd rôl arweiniol mewn datblygu polisi gwrth-fwlio'r ysgol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dweud bod achosion o ymddygiad gormesol yn brin, a bod staff yn delio â nhw'n brydlon.

Canran bresenoldeb ddiweddaraf yr ysgol yw dros 94% am y tri thymor diwethaf. Mae hyn uwchlaw cyfartaleddau lleol a chenedlaethol ac wedi rhagori ar darged yr awdurdod lleol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yn brydlon, ac ychydig iawn ohonynt sy'n hwyr yn rheolaidd.

Mae perthnasoedd gweithio cryf iawn rhwng disgyblion a staff. Mae ymddygiad disgyblion yn gyson dda mewn ystafelloedd dosbarth ac ar y meysydd chwarae. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos lefel uchel o ofal, ystyriaeth a pharch at oedolion a disgyblion eraill. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith, mae ganddynt agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu ac yn gweithio'n effeithiol iawn gyda phartneriaid ac mewn grwpiau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gosod a monitro eu targedau eu hunain ac yn gwybod beth i'w wneud i wella eu dysgu eu hunain.

Mae cysylltiad disgyblion gyda'r gymuned a gwneud penderfyniadau yn rhagorol. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn prosiect arloesol rhwng cenedlaethau. Trwy'r gwaith hwn, mae disgyblion wedi datblygu parch a dealltwriaeth o anghenion dinasyddion hŷn ac wedi eu cynorthwyo â medrau cyfrifiadur ymhlith pethau eraill. Mae cynrychiolwyr disgyblion yn cymryd rhan mewn grŵp mawr amlasiantaethol hefyd i gyflwyno eu cynlluniau ar gyfer datblygu tir yr ysgol. Trwy'r broses hon, mae disgyblion wedi bod yn hynod ddylanwadol yn creu tir yr ysgol yn amgylchedd dysgu awyr agored ysgogol ac yn lle cyffrous i chwarae.

Mae'r cyngor ysgol a'r eco bwyllgor yn deall ac yn cyflawni eu rolau'n dda. Mae aelodau o'r sgwad diogelwch yn cynorthwyo'r staff yn frwdfrydig trwy wneud teithiau rheolaidd o amgylch yr ysgol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r sgwad diogelwch wedi cael dylanwad cadarnhaol ar lawer o feysydd o wella'r ysgol.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol wedi mynychu cyfarfodydd gyda'r gwasanaeth prydau ysgol hefyd i drafod opsiynau'r fwydlen amser cinio ar gyfer disgyblion. O ganlyniad uniongyrchol, mae'r ysgol yn awr yn darparu prydau poeth ac oer ar gyfer disgyblion. Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn cyfarfod â llywodraethwyr yn rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu heriol a diddorol ar gyfer disgyblion o bob oedran a gallu. Mae cynllunio'n llwyddiannus yn ennyn diddordeb yr ystod lawn o ddisgyblion trwy weithgareddau ysgogol ac mae'n cynnig cydbwysedd da rhwng cymorth a her.

Mae'r ysgol yn bodloni anghenion grwpiau gwahanol o ddysgwyr yn dda ac mae'r ddarpariaeth hon yn arwain at ddeilliannau cadarnhaol iawn. Mae darpariaeth dda iawn i ddisgyblion mwy abl a dawnus.

Mae cynllunio effeithiol ar waith i ddatblygu medrau sy'n benodol i bwnc a medrau yn systematig ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau yn gryfder sylweddol a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn arwain y sector. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm wedi'i datblygu cystal.

Mae'r ysgol yn creu ethos rhagorol sy'n hyrwyddo diddordeb a brwdfrydedd tuag at yr iaith Gymraeg. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd rhagorol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu agwedd gadarnhaol a brwdfrydig tuag at y pwnc. Mae strategaethau a threfniadau'r ysgol yn sicrhau bod gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gynyddol o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Mae Plascrug wedi ennill Cystadleuaeth y Gân Actol yn y categori Ail Iaith yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am y naw mlynedd diwethaf, gan ddangos ymdrech gyson tuag at ragoriaeth.

Mae safon y ddarpariaeth o ran addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn uchel iawn. Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o weithgareddau o fewn y cwricwlwm a thu hwnt, i ddatblygu ymwybyddiaeth dda iawn o faterion cynaliadwyedd. Mae'r ysgol yn gymuned hynod gynhwysol gyda nodweddion rhagorol yn y ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau, o fewn y cwricwlwm a thu hwnt, sy'n cefnogi ac yn gwella'r dysgu'n effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd cyffredinol yr addysgu'n dda. Mae pob un o'r athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol gyfoes ac maent yn defnyddio ystod eang o ddulliau a strategaethau i ennyn diddordeb disgyblion a'u cymell yn effeithiol. Pan fo'r addysgu ar ei orau, mae'r disgyblion yn elwa ar wersi sy'n cynnig y lefel gywir o gymorth a her sy'n cael eu cyflwyno'n fywiog ond yn hylaw. Mae'r strategaethau a ddefnyddir gan y staff addysgu fel technegau holi effeithiol yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau meddwl da a gwella cyfranogiad a chynnydd disgyblion mewn gwersi. Mae athrawon yn datblygu gallu disgyblion i weithio'n annibynnol ac ar y cyd yn llwyddiannus ar draws yr ystod oedran. Pan nad yw'r addysgu mor llwyddiannus, mae'r cwestiynau'n llai effeithiol, rhediad y wers yn arafach, ac nid yw'r disgyblion yn deall pob tasg yn ddigonol er mwyn iddynt symud ymlaen â'u dysgu.

Mae athrawon yn defnyddio ystod dda ac amrywiol o adnoddau i wella’r profiadau dysgu. Caiff yr amgylchedd awyr agored ei ddefnyddio’n arbennig o dda ar gyfer profiadau dysgu ymarferol sy’n cynnwys gweithgareddau darllen, chwarae rôl a gwyddoniaeth ymchwiliol. Mae’r cymorth gan oedolion yn gyson dda ac yn cael ei ddefnyddio’n dda. Mae staff cymorth yn gweithio gyda medr, diben a brwdfrydedd i wella’r deilliannau ar gyfer disgyblion.

Caiff cynnydd disgyblion ei olrhain yn effeithiol. Cedwir cofnodion helaeth a manwl, ac fe’u defnyddir yn dda i lywio cynllunio ar gyfer y dyfodol. Caiff gwaith ei farcio’n rheolaidd ac mae disgyblion yn elwa ar adborth llafar ac ysgrifenedig adeiladol sy’n eu helpu i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a’r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Yn y rhan fwyaf o wersi, defnyddir strategaethau asesu ar gyfer dysgu’n dda i alluogi disgyblion i nodi nodau dysgu, myfyrio ar eu perfformiad eu hunain a gosod targedau ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni chaiff y strategaethau hyn eu hymgorffori’n gyson ym mhob dosbarth. Mae’r adroddiadau i rieni’n glir ac maent yn wybodus am gyflawniadau a chynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae arweinwyr yn rhoi cryn bwyslais ar les disgyblion. Maent yn cynnig nifer o gyfleoedd i ddisgyblion fod yn gorfforol weithgar a dewis diet iach.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol iawn gyda nifer o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol sy’n sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd da iawn i ddisgyblion a rhieni. O ganlyniad i’r ddarpariaeth dda iawn i feithrin datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion, maent yn datblygu lefel uchel o ddealltwriaeth o werthoedd pwysig. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y parch a ddangosant at ei gilydd ac oedolion. Mae perthnasoedd cadarnhaol iawn yn arwain at ymddygiad eithriadol o dda gan y disgyblion. Caiff disgyblion eu gwerthfawrogi’n gyfartal, ac mae darpariaeth arloesol ar waith i ddathlu amrywiaeth. Er enghraifft, cynhelir gwasanaeth Moslemaidd wythnosol yng nghyfnod allweddol 2 ar yr un pryd â’r cyd-addoliad Cristnogol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhagorol ac yn eu helpu i wneud cynnydd da iawn. Mae’r ysgol yn cydlynu ei hystod eang o ddarpariaeth yn dda iawn. Mae athrawon yn nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac yn monitro cynnydd disgyblion yn gyson ac yn effeithiol. Mae staff yn ymgorffori safbwyntiau disgyblion yn eu cynlluniau addysg unigol manwl a phriodol yn dda. Mae’r berthynas gyda rhieni ac asiantaethau allanol, fel y gwasanaeth synhwyraidd, yn hynod effeithiol o ran sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu bodloni’n dda. Mae’r hyfforddiant a roddir i staff a’r defnydd a wneir ohonynt yn nodwedd ragorol. Er enghraifft, mae’r dull integredig o ddefnyddio iaith arwyddion yn sicrhau bod disgyblion ym mhob dosbarth yn cymryd rhan yn llwyddiannus ym mhob gwers.

Mae’r ysgol yn ymgysylltu mewn modd rhagweithiol gyda rhieni i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth dda ac yn cael eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau sy’n effeithio ar eu plant.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae ethos cynhwysol yr ysgol yn nodwedd ragorol. Caiff pob disgybl gyfle i fanteisio'n gyfartal ar y cwricwlwm, ac maent yn cymryd rhan yn llawn ym mywyd yr ysgol, beth bynnag fo'u hanghenion neu'u hamgylchiadau. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd arloesol o natur amrywiol y boblogaeth i wella'r ddarpariaeth yn effeithiol. Mae'r diwrnod rhyngwladol yn yr ysgol yn enghraifft dda o'r ysgol yn dathlu amrywiaeth ac yn gwneud y gorau o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am gefndiroedd aelodau eraill o gymuned yr ysgol, a'u gwerthfawrogi.

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o adnoddau dysgu sy'n gweddu'n dda i anghenion a diddordebau disgyblion. Mae ansawdd y safle'n dda iawn, caiff ei gynnal yn dda ac mae'n cynnig amgylchedd sy'n hyrwyddo dysgu llwyddiannus. Mae'r mannau dysgu yn yr awyr agored wedi cael eu datblygu mewn modd arloesol i wneud defnydd effeithiol o'r lle sydd ar gael. Mae hyn yn gwella profiadau dysgu a chwarae ar gyfer pob disgybl. Mae'r ysgol wedi sicrhau bod disgyblion wedi cael eu cynnwys yn llawn mewn datblygu'r mannau rhagorol yn yr awyr agored.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth a'r dirprwy bennaeth ddisgwyliadau uchel o staff a disgyblion, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn i sicrhau bod yr ysgol yn cael ei threfnu a'i rheoli'n dda. Mae gan arweinwyr a rheolwyr ffocws clir ar godi safonau, ac maent yn defnyddio data'n dda iawn i fonitro a herio perfformiad yr ysgol.

Mae rhai uwch reolwyr yn weddol newydd i'w swydd, ond mae eu rolau a'u cyfrifoldebau clir yn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol at welliannau. Mae arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel yn effeithiol, ac maent yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda. Mae cyfarfodydd tîm rheoli rheolaidd, cyfarfodydd staff a system gadarn i reoli perfformiad yn cyfrannu'n dda at welliannau mewn dysgu ac addysgu hefyd.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol yn dda. Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol ac mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o berfformiad y disgyblion a'r modd y mae hyn yn cymharu â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion eraill tebyg. Mae ganddynt wybodaeth dda am gryfderau'r ysgol, blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer datblygu a chyllid yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn herio'r ysgol yn gadarn am y safonau a'r ansawdd a gyflawnir ganddi.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da iawn wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel asesu ar gyfer dysgu, datblygu strategaethau llythrennedd a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau cyflawniad disgyblion.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae strategaeth gadarn iawn ar gyfer hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys perfformiad disgyblion,

arsylwadau ystafell ddosbarth, craffu ar waith disgyblion a safbwyntiau disgyblion a rhieni. O ganlyniad i ofyn am safbwyntiau rhieni, newidiodd yr ysgol ei hadroddiadau ar gynnydd disgyblion yn ddiweddar.

Mae deilliannau hunanarfarnu yn rhoi asesiad cywir iawn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Defnyddir y wybodaeth hon yn effeithiol iawn i bennu blaenoriaethau a thargedau clir ar gyfer gwella'r ysgol sydd wedi'u cynnwys mewn cynllun manwl tair blynedd. Mae rhoi'r cynllun hwn ar waith yn cael effaith gadarnhaol iawn ar welliannau ac mae blaenoriaethau fel llythrennedd, Cymraeg ac asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n eithriadol o dda.

Mae'r ysgol yn datblygu cymuned ddysgu gref iawn. Mae ystod eang o gyfleoedd eithriadol o dda i staff wella eu medrau a'u gwybodaeth broffesiynol.

Mae mentora da ar gyfer athrawon sy'n newydd i'r ysgol a chyfleoedd cysgodi swydd yn galluogi'r athrawon hyn i ddatblygu medrau addysgu effeithiol. Mae athrawon yn ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi arfer dda a modelu gwersi yn yr ysgol hefyd i wella safonau. Mae uwch staff wedi parhau i ddatblygu'n broffesiynol, ac o ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth dda am fedrau arwain a gwella ansawdd. Yn ychwanegol, mae rhwydwaith diweddar teulu o ysgolion yn helpu'r ysgol yn llwyddiannus i ddatblygu strategaethau llythrennedd effeithiol.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd rhagorol i bob un o'r staff ddysgu Cymraeg a datblygu eu medrau Cymraeg trwy gyfuniad o gyrsiau hir a sesiynau hyfforddi wythnosol. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau Cymraeg y disgyblion.

Ar draws yr ysgol, mae pob un o'r staff yn elwa ar raglen gynhwysfawr o gyfleoedd hyfforddi sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus ac yn gwella gallu'r ysgol i wneud gwelliannau yn effeithiol iawn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau partneriaeth strategol rhagorol sy'n cael effaith sylweddol ar safonau disgyblion ac yn ymestyn arferion dysgu. Mae cysylltiadau gyda llawer o fusnesau lleol yn llwyddiannus iawn o ran darparu adnoddau a chymorth gwerthfawr.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da iawn gydag ysgolion Ewropeaidd sydd wedi arwain at daith gyfnewid a lleoliad i athrawon yn ddiweddar.

Mae gan yr ysgol rôl weithgar mewn trefniadau llywodraethu ar y cyd gyda'r sefydliad addysg uwch ac ysgolion uwchradd yn yr awdurdod lleol.

Mae gan yr ysgol berthynas gref iawn gyda rhieni, ac mae'r cyllid sylweddol sy'n cael ei gyfrannu gan y gymdeithas rhieni ac athrawon yn darparu ar gyfer adnoddau defnyddiol ychwanegol.

Mae cysylltiadau cryf wedi cael eu meithrin gyda grwpiau cyn-ysgol i sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n effeithiol i'r dosbarth meithrin. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'i chlwstwr o ysgolion hefyd i gynllunio ar y cyd, rhannu profiadau a chyfnewid arferion.

Mae’r ysgol yn arwain cysylltiadau effeithiol iawn gydag ysgolion eraill yn y teulu hefyd, ac mae hyn wedi arwain at welliannau yn safonau llythrennedd disgyblion. Mae’r cydweithio hwn wedi gwella a helpu i ddatblygu strategaethau newydd mewn ysgrifennu a chynllunio’r Cyfnod Sylfaen.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff staff ac adnoddau ariannol eu defnyddio’n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol systematig a thrylwyr ac mae gwariant wedi’i gysylltu’n dda iawn ag amcanion, targedau a chynlluniau’r ysgol.

Manteisir yn llawn ar amser ac arbenigedd staff addysgu i ddelio â phob agwedd ar y cwricwlwm. Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o’u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, ac fe gaiff y trefniadau ar gyfer hyn eu rheoli’n fedrus. Caiff staff cymorth eu defnyddio’n dda iawn ac fe gânt effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad pob disgybl.

Mae rheoli perfformiad yn nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu a hyfforddi pob un o’r staff. Caiff y rhain eu cynllunio’n effeithiol iawn mewn perthynas â blaenoriaethau’r ysgol.

Mae ystod dda o adnoddau dysgu ar y cyfan, ac fe gaiff y rhain eu rheoli’n dda.

Mae adeiladau’r ysgol a’r mannau dysgu tu allan wedi cael eu datblygu i safon dda iawn.

Mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae data perfformiad dros y pedair blynedd diwethaf yn dangos tuedd ar i fyny ym mherfformiad plant saith oed. Fodd bynnag, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel 2 ddisgwyliedig neu'n uwch yn y pynciau craidd, sef Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, dros y cyfnod hwn wedi bod islaw'r teulu o ysgolion tebyg a chyfartaleddau ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r ysgol wedi bod yn y 50% is o gymharu ag ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 neu'n uwch mewn Saesneg a mathemateg yn dangos tuedd ar i fyny, gyda disgyblion yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru gyfan yn y ddau bwnc yn 2011. Mae cyrhaeddiad mewn gwyddoniaeth yn dangos patrwm amrywiol gyda pherfformiad fel arfer islaw ysgolion tebyg a chyfartaleddau ar gyfer Cymru gyfan.

Roedd disgyblion a gyflawnodd lefel 3 uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth i gyd uwchlaw cyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol, ac fe wnaeth hyn roi'r ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mae'r data ar gyfer disgyblion 11 oed yn dangos tuedd ar i fyny dros dair blynedd, gyda'r ysgol yn perfformio'n well na'r ysgolion tebyg a chyfartaledd cenedlaethol dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn y pynciau craidd Saesneg a mathemateg, ac yn 2011 ar gyfer gwyddoniaeth. Mae'r ysgol wedi bod yn y 50% uwch dros y ddwy flynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel 5 uwch neu'n uwch ym mhob un o'r pynciau craidd wedi bod gryn dipyn yn uwch nag ysgolion tebyg a chyfartaleddau ar gyfer Cymru gyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf.

Nid oes patrwm sylweddol o wahaniaeth rhwng lefelau perfformiad cymharol bechgyn a merched na rhwng y grŵp o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r disgyblion hynny nad oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'r rhai y nodwyd eu bod yn fwy abl a dawnus yn gwneud cynnydd eithriadol.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

Cafodd Estyn 101 o ymatebion o'u holiadur i ddysgwyr. Roedd pob un o'r ymatebion yn gadarnhaol iawn ac yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd dau ymateb o fewn dau bwynt canran o'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, maent i gyd yn teimlo bod yr ysgol yn eu haddysgu ynglŷn â sut i gadw'n iach ac maent yn teimlo bod athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd da. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni, maent yn gwybod beth i'w wneud ac i bwy i ofyn os ydynt yn cael eu gwaith yn anodd ac yn teimlo'u bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion fod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio, ac maent yn credu bod llawer o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd, bod eu gwaith cartref yn eu helpu i wella eu gwaith yn yr ysgol a bod ganddynt ddigon o adnoddau i wneud eu gwaith. Mae llawer ohonynt yn teimlo bod plant eraill yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac ar yr iard yn ystod amser egwyl.

Mae'r 21 o ymatebion gan rieni i gyd yn gadarnhaol, gyda thua hanner yr ymatebion yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Roedd pob un o'r rhieni a fynegodd farn naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf:

- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol hon;
- y cafodd eu plentyn gymorth i ymgynefino'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da;
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn eu parchu;
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol; a
- bod eu plentyn wedi cael ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae bron pob un o'r rhieni'n cytuno:

- eu bod yn fodlon â'r ysgol ar y cyfan;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod ystod dda o weithgareddau, yn cynnwys teithiau neu ymweliadau; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n cytuno bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei (g)orau a bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i fod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb. Mae llawer ohonynt yn cytuno bod yr addysgu'n dda, bod y gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol a'u

bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn. Roedd y rhan fwyaf o rieni'n cytuno hefyd eu bod yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem a'u bod yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Michael Hayes | Arolygydd Cofnodol |
| Mike Maguire | Arolygydd Tîm |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Richard Lloyd | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mena Sweeney (Dirprwy Bennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad i holl rieni’r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai’r ysgol anfon copi o’r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.